# 6

# Nant y Ffrith





## Suberb views, rolling farmland and peaceful forest

**Distance:** 8.8 km / 5.5 miles

**Time:** Allow 3 – 4 hrs

**Parking:** Cross Keys car park with landlord's permission or limited roadside parking in Llanfynydd (SJ279567)

**Grade:** Moderate, undulating terrain, several stiles

**Facilities:** Pub and shop in Llanfynydd, two pubs in Ffrith

**Livestock:** Sheep and cattle

## Golygfeydd rhagorol, tir bryniog, a choedwig heddychlon

**Pellter:** 8.8 km / 5.5 milltir

**Amser:** Caniatáu 3 – 4 awr


**Parcio:** Maes parcio Cross Keys gyda chaniatâd y tirfeddiannwr, neu ychydig o le parcio yn Llanfynydd (SJ279567)

**Graddfa:** Cymedrol, tir bryniog, nifer o gamfeydd

**Cyfleusterau:** Tafarn a siop yn Llanfynydd, 2 dafarn yn y Ffrith

**Da byw:** Defaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:**





Nant y Ffrith

## The Walk

**1.** From pub car park cross road and turn R and immediate L onto track. Pass under small bridge, formerly part of Llanfynydd railway station. Continue ahead where track splits and walk between redbrick house and former mill. Cross stile and continue across paddock. Cross footbridge and next stile into field. Walk diagonally R across field to cross stile in wall. Follow RH fence across next field. Cross stile and river then follow path along LH field edge above river. Just before gate and bridge go thro' gap in fence on R, following natural path above river, crossing stile. At end of path turn L along a track.

**2.** Where track bears L to Hafod-abley, take signed path on R through small gate and follow LH field edge. Over stile and footbridge and climb uphill along RH field edge (can be overgrown and boggy). At corner of field turn L and follow RH field edge to stile onto lane. Turn R for about 200m to T junction. Turn L along lane, slowly climbing for approx 500m.

**3.** Where lane bends L take wide track on R. Cross gate/stile and continue along track.

**4.** Just beyond pond on L take L fork uphill on minor path. At track turn L and follow LH boundary uphill to stile and gap. Turn R onto path and follow RH fenceline to woodland edge. Cross stile and follow narrow natural meandering path through woodland. Continue ahead where path joins larger track (or detour R up track to trig point for superb view), gradually descending hillside.

**5.** Where path meets wide track at bottom of hill, turn R then L after 15m.Continue downhill on small natural path, passing pond on R. Continue along path, with old stone wall on L. At waymarker post on L take path sharp L, with moss covered wall on RHS. Follow path as it meanders down hillside, passing row of old yews on R (relict of Nant y Ffrith Hall pleasure grounds).

**6.** Turn L at first path junction and L again where path joins wide forest track. Continue along track for approx 1.25km, (ignoring path L) enjoying wide views of Nant y Ffrith valley to R. At end of forest track continue through metal gate/stile along narrow path. Pass paddocks and house on L, following fenced path. Turn R along drive and continue under Ffrith viaduct into village.





# Nant y Ffrith

**7.** Turn L in front of Bluebell Inn and L down a track through Pant Joinery yard, passing office on L. Go through gate/stile and continue ahead, bearing R after approx 150m, along minor path descending towards river. Cross stile by river and turn L uphill walking under small old railway bridge. Continue up track.

**8.** Just past house on L go through gate on R and follow RH field edge to gate into farmyard. Follow drive, bearing R past house, and continue to road. Cross road and stile opposite. Continue ahead along grassy path descending hillside to stile in bottom RH corner. Cross stile and continue over next stile to retrace footsteps over footbridge, across paddock and onto track beyond mill to return to Llanfynydd.

## Y Daith Gerdded


**1.** O faes parcio'r dafarn croeswch y ffordd a throi i'r Dd ac yna i'r Ch ar unwaith i'r llwybr llydan. Ewch o dan y bont fechan oedd gynt yn rhan o hen orsaf rheilffordd Llanfynydd. Ymlaen i ble mae'r llwybr yn gwahanu a cherddwch rhwng y tŷ brics coch a'r hen felin. Croesi'r gamfa ac ymlaen dros y borfa. Croesi'r bompren a'r gamfa nesaf i'r cae. Cerdded yn groesgornel i'r Dd ar draws y cae i groesi'r gamfa sy yn y wal. Dilyn LlDd'r ffens ar draws y cae nesaf. Croesi'r gamfa a'r afon ac yna dilyn y llwybr ar hyd LlCh ymyl y cae y tu uchaf i'r afon. Yn union cyn dod i'r giât a'r bont ewch drwy'r bwlch yn y ffens ar y LlDd, gan ddilyn llwybr naturiol uwchben yr afon, croesi'r gamfa. Pan ddaw'r llwybr i ben, troi i'r Ch ac ar hyd y llwybr llydan.

**2.** Pan fydd y llwybr hwn yn gwyro i'r Ch i Hafod Abley, ewch ar y llwybr sydd ag arwydd arno ar y Dd a thrwy'r' giât fechan a dilyn ymyl LlCh y cae. Dros y gamfa a'r bont a dringo ar hyd LlDd 'r cae (gall fod gordyfiant a chors). Yng nghornel y cae, troi i'r Ch a dilyn min LlDd 'r cae at y gamfa ac i'r lôn. Troi i'r Dd am 200m i'r gyffordd T. Troi i'r Ch ar hyd y lôn, dringo'n raddol am tua 500m.

**3.** Pan fydd y lôn yn troi tua'r Ch cymerwch y llwybr llydan ar y Dd. Croesi'r giât/camfa a dal ymlaen ar hyd y llwybr llydan.

**4.** Yn union y tu hwnt i'r llyn sy ar y LlCh, cymerwch y fforch Ch i fyny ar lwybr llai. Ar y llwybr llydan, trowch i'r Ch a dilyn y ffin LlCh i fyny tua'r gamfa a'r adwy. Troi i'r Dd i'r llwybr a dilyn y ffens LlDd i ymyl y coed. Croesi'r gamfa a dilyn llwybr naturiol troellog cul drwy'r goedlan. Ymlaen i ble mae'r llwybr yn ymuno â llwybr mwy (neu ddargyfeirio i'r Dd i fyny'r llwybr am olygfa wych o'r pwynt trig), cerdded yn raddol i lawr y bryn.

**5.** Pan fydd y llwybr yn cyfarfod â llwybr llydan ar waelod yr allt, troi i'r Dd ac yna i'r Ch ar ôl 15m,



*Buzzard*
*Bwncath*

ac ymlaen i lawr ar lwybr bychan naturiol gan fynd heibio'r llyn ar y LlDd. Ymlaen ar hyd y llwybr, bydd hen wal gerrig ar y LlCh. Wrth y postyn arwyddo ar y LlCh ewch ar y llwybr sy'n troi yn llym i'r Ch, sydd â wal fwsoglyd ar y LlDd. Dilynwch y llwybr wrth iddo grwydro i lawr y bryn gan fynd heibio rhes o hen goed yw ar y LlDd (olion gerddi pleser Plas Nant y Ffrith).

**6.** Troi i'r Ch ar gyffordd gyntaf y llwybr ac yna i'r Ch eto ble mae'r llwybr yn ymuno â llwybr llydan y goedwig. Dal ar y llwybr llydan am tua1.25km, (anwybyddu'r llwybr i'r Ch) gan fwynhau golygfeydd eang o ddyffryn Nant y Ffrith ar y LlDd. Ar ben draw llwybr y goedwig, ewch ymlaen drwy giât fetel/camfa ar hyd llwybr cul. Ewch heibio'r padogau a'r tŷ sy ar y LlCh, gan ddilyn y llwybr sy â ffens. Troi i'r Dd ar hyd y dreif ac ymlaen o dan bont cludo dŵr y Ffrith ac i mewn i'r pentref.

**7.** Troi i'r Ch o flaen tafarn y Bluebell ac yna i'r Ch i lawr llwybr llydan i ymuno ag iard Gwaith Saer y Pant, mynd heibio i'r swyddfa ar y LlCh. Ewch drwy'r giât/camfa ac yn syth ymlaen, gwyro i'r Dd ar ôl tua 150m, ar hyd ffordd fach gan ddisgyn tua'r afon. Croesi'r gamfa wrth yr afon a throi i'r Ch i fyny'r bryn gan gerdded o dan hen bont reilffordd. Parhau i fyny'r llwybr llydan.

**8.** Ar unwaith ar ôl y tai sy ar y LlCh, ewch drwy'r giât ar y LlDd a dilyn ymyl LlDd y cae i'r giât ac i mewn i'r buarth. Dilyn y dreif gan wyro i'r Dd heibio'r tŷ, ewch ymlaen i'r ffordd. Croesi'r ffordd a'r gamfa gyferbyn. Syth ymlaen ar hyd llwybr glaswellt gan fynd i lawr tua'r gamfa yn y gornel LlDd waelod. Croesi'r gamfa a mynd ymlaen dros y gamfa nesaf gan ddilyn eich trywydd yn ôl dros y bont, ar draws y padog ac i lwybr llydan y tu hwnt i'r felin i ddod yn ôl i Lanfynydd.

*Llanfynydd Station*
*Gorsaf Llanfynydd*



*Nant Y Ffrith Hall was built as a hunting lodge in 1850 by Thomas Fry, a Liverpool tea merchant. Fry died soon after its completion but the new owner turned it into a fine country residence. In 1865 it was sold to local ironmaster James Kyrke. His son enlarged it further but afterwards it gradually deteriorated and was finally demolished.*


*Look for the exotic trees, old stonework and a circle of yew trees that are the only remains of the once extensive pleasure gardens that surrounded the house.*

*Adeiladwyd Plas Nant y Ffrith yn lluest hela yn 1850 gan Thomas Fry, masnachwr te o Lerpwl. Bu farw yn fuan ar ôl ei gwblhau a gwnaeth y perchennog newydd dy braf o'r adeilad. Yn 1865 Prynodd James Kyrke, meistr haearn lleol, y ty. Ymestynnodd ei fab y ty eto, ond wedyn fe ddadfeiliodd a cafodd ei chwalu.*

*Chwiliwch am y coed dieithr, yr hen waith cerrig a'r cylch o goed yw; dyma'r cyfan sydd ar ô o'r gerddi pleser eang oedd o gwmpas y ty.*



*Nant y Ffrith circa 1900*




The former Nant y Ffrith Hall
*Plas Nant y Ffrith gynt*